Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

Dweud eich dweud! Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Mae'r Cynulliad yn awyddus i ni rannu manylion yr arolwg mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi'i drefnu. Gofynwn yn garedig i chi rannu'r manylion sydd wedi'i hatodi efo rhieni, a'r disgyblion rheiny sydd ar y gofrestr ADY yn eich hysgolion. Mae posib i chi hefyd roi'r wybodaeth ar wefan eich hysgol.

Er mwyn casglu barn teuluoedd a plant a phobl ifanc, mae'r Pwyllgor wedi creu arolygon.

Mae'r arolwg i blant a phobl ifanc yma: https://www.surveymonkey.co.uk/r/ALNET-Ifanc

Mae'r arolwg i deuluoedd yma: https://www.surveymonkey.co.uk/r/ALNET-Teuluoedd

Mae'r Swyddog - Ann Williams yn hapus i chi gysylltu efo hi yn uniongyrchol os ydych angen mwy o fanylion, neu os yr hoffech iddi ddod draw i'r ysgol i drefnu gweithdy syml efo rhai o'ch disgyblion er mwyn cwblhau'r holiadur.

Manylion cyswllt - Ann.Owen.Williams@assembly.wales

Mae'r amserlen yn dyn - **dyddiad cau yr arolwg yw - 8 Mawrth 2017**

Have your say! The Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Bill

The National Assembly is keen for us to share information with you regarding the survey that has been arranged by the Children, Young People and Education Committee. We ask that you share the attached details with parents and pupils who are on the ALN register in your schools. It is also possible for you to put this information on your school website.

In order to collect the views of families and children and young people, the Committee has created some surveys.

You can find the survey for children and young people here:
https://www.surveymonkey.co.uk/r/ALNET-Youth

You can find the survey for families here:
https://www.surveymonkey.co.uk/r/ALNET-Families

The Officer – Ann Williams – is happy for you to contact her directly if you require further details, or if you would like her to visit your school to arrange a simple workshop with some of your pupils in order to complete the survey.

Contact details - Ann.Owen.Williams@assembly.wales

The deadline is tight - **the surveys close on 8 March 2017**

Swyddi Newydd

Byddwch yn ymwybodol bod dau Uwch Reolwr newydd (Gwern ap Rhisiart ac Einir Thomas) eisoes wedi'u penodi i weithredu ar draws Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i arwain un Tîm Integredig o arbenigwyr a fydd yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a/ neu gynhwysiad ar draws y ddwy sir.

'Rydym bellach yn barod i hysbysebu'r haen nesaf o reolwyr. Manteisiwn felly ar y cyfle i'ch cyfeirio at wefan Cyngor Gwynedd lle ceir manylion swyddi a allai fod o ddiddordeb i chi:

- **Arweinydd Addysg Gynhwysol (Cynnal Ymddygiad)**
- **Swyddogion Ansawdd ADYaCh Ardal x 4 swydd**

You will be aware that two new Senior Managers (Gwern ap Rhisiart and Einir Thomas) have already been appointed to serve across Gwynedd Council and Isle of Anglesey Council to lead a single Integrated Team of specialists who will support children and Young people who have additional learning needs and/or inclusion across both counties.

We are now ready to advertise the next layer of managers. We take this opportunity to refer you to Gwynedd Council's website where you will find details of jobs that could be of interest to you:

- **Inclusive Education Leader (Behaviour Support)**
- **Area ALN&I Quality Officers x 4 posts**